

Cwmpas y Cynllun Gweithredu:

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn delio efo cloddiau, math o derfyn sy'n arbennig o nodweddiadol o Benrhyn Llŷn. Banciau o bridd wedi eu codi yw cloddiau, fel arfer â wyneb o garreg, ac o bosibl efo gwrych wedi ei plannu ar eu pen. Maent yn anarferol o ran cyfeiriad y cerrig yn y wyneb carreg, sydd fel arfer yn cael eu gosod gyda'u ochr hiraf yn rhedeg ar i fynny. Felly, maent o bwysigrwydd sylweddol yn lleol ac o werth ecolegol sylweddol, ac yn aml maent yn cynnwys amrediad o blanhigion glannau afon a gwrychoedd, infertebrata, amffibiaid, ymlusgiaid a mamaliaid bychain. Mewn rhai achosion, gall cloddiau gynnwys gwrychoedd hynafol a/neu â chyfoeth o rywogaethau sy'n cael eu dynodi fel cynefinoedd blaenoriaeth CGB yn y DU¹.

1. STATWS PRESENNOL**1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth**

Rhyngwladol	Dim
Y Deyrnas	Dim ond:
Gyfunol a Chymru	Gallai Rheoliadau Gwrychoedd 1997 fod yn berthnasol i rai cloddiau Pan fo cloddiau yn cynnwys gwrychoedd hynafol a/neu â chyfoeth o rywogaethau: Blaenoriaeth CGB DG Rhestr Adran 74 Cymru ^a
Gwynedd	Dim

1.2 Statws yng Nghymru a thu hwnt

Mae Cloddiau i'w canfod yn Sir Benfro, Gogledd-Orllewin Cymru, Ynys Môn a'r Arfordir Cambriaidd.

1.3 Statws yng Ngwynedd^b

Mae Cloddiau yn arbennig o nodweddiadol o Benrhyn Llŷn.

2. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y RHYWOGAETH YNG NGWYNEDD

- Diffyg gwaith cynnal / rheoli priodol e.e. tocio / torri'r llysdyfiant yn ormodol, a / neu dorri ar adegau anghywir o'r flwyddyn, yn enwedig yn ystod y cyfnod nythu.
- Eu chwalu yn llwyr er mwyn creu caeau mwy sy'n addas ar gyfer y cynnydd mewn stoc neu i gymryd peiriannau fferm mwy.
- Nid yw terfynau fel cloddiau a waliau cerrig sych, hyd yn oed y rhai hynny sydd efo gwrych wedi ei blannu ar eu pennau, o angenrheidrwydd wedi eu diogelu gan Reoliadau Gwrychoedd 1997 yn yr un modd â gwrychoedd, sy'n eu gwneud yn agored i gael eu chwalu.
- Colli'r crefftau traddodiadol ar gyfer cynnal clawdd fel gosod y gwrych yn gyfnodol a mewnlenni e.e. tyweirch neu bridd, rhwng y cerrig.
- Difrod gan y nifer cynyddol o dda byw drwy bori ac erydu'r banciau pridd.

^a Llywodraeth Cynulliad Cymru Mynd yn Wylt yng Nghymru- Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd o Bwysigrwydd Pennaf i amcanion Diogelu Amrywiaeth Biolegol. Hawlfraint y Goron 2003..

^b Yn y ddogfen hon, mae'r term "Gwynedd" yn cyfeirio at ardaloedd y tu allan i ardal Parc Cenedlaethol Eryri, heblaw lle nodir fel arall.

3. CGR / CGC CYSYLLTIEDIG GWYNEDD

Ymylon caeau âr, Rhostir tir isel, Glaswelltir asid sych tir isel, Dolydd a phorfeydd tir isel, Gwrychoedd, Coridorau cludiant

Ystlumod, Clychau'r Gog, Brân Goesgoch, Tylluan Wen, Adar Tir Amaeth, Ystlum Trwyn Pedol, Gwiber, Madfallod Dŵr


4. CAMAU GWEITHREDU PRESENNOL YNG NGWYNEDD

4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Gall Rheoliadau Gwrychoedd 1997 ddarparu rhywfaint o ddiogelwch rhag chwalu gwrychoedd

4.2 Rheoli a rhaglenni gweithredu

- Mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol fel ASA ar y cyd efo'r Cynllun Adfer Gwrychoedd, Tir Cymen ac erbyn hyn Tir Gofal, wedi bod o gymorth i annog rheoli a gwella cloddiau a sefydlu cloddiau newydd yng Ngwynedd.
- Mae Cyngor Gwynedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri wedi cynhyrchu taflen ar reoli ymylon ffyrdd mewn modd priodol, ac mae taflen ar ddod ynglŷn â rheoli gwrychoedd, a fydd yn cynnwys cloddiau.
- Mae rhai safleoedd eisoes wedi cael eu dynodi fel Safleoedd Bywyd Gwyllt posibl.
- Mae Cyngor Gwynedd wedi cynhyrchu manylion ynglŷn ag adeiladu cloddiau, ac maent ar gael i'w Adran Briffyrdd



4.3 Arolygon, ymchwil a monitro

- Dim yn wybyddus

5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. Cynnal cloddiau presennol yng Ngwynedd sydd â chyfoeth o rywogaethau a sicrhau rheolaeth briodol tymor hir.
2. Sefydlu'r "arfer gorau" ar gyfer rheoli cloddiau ymyl ffordd yn briodol

6. CAMAU GWEITHREDU ARFAETHEDIG

Cod	Gweithredu	Partner(iaid) ^c
Polisi a deddfwriaeth		
1	Defnyddio amodau cynllunio i sicrhau bod datblygiadau mewn lleoliadau sensitif yn gydnaws â chadwraeth cloddiau. TARGED: Cyfredol	CG, partneriaid perthnasol
2	Sicrhau bod cloddiau sy'n cwrdd â'r meini prawf perthnasol yn cael eu dynodi fel Safleoedd Bywyd Gwyllt. TARGED: Dechrau'r broses o ddynodi yn ystod 2005	CG, CBNGC, CCGC
Rheoli a diogelu rhywogaethau / cynefinoedd		
3	Hyrwyddo a chefnogi cynlluniau grant gan gynnwys AASLŷn a / neu Tir Gofal i sicrhau bod cloddiau yn cael eu rheoli a / neu eu hadfer, gan ystyried anghenion rhywogaethau allweddol cysylltiedig TARGED/ AMSERLEN: I'w bennu, Cyfredol	GCFBG, AACCG, CCGC, CYT, UAC, CG, UCF
4	Chwilio am arian ar gyfer rheoli tiroedd drwy ddatblygu cynllun grant bioamrywiaeth, a fyddai'n cynnwys grantiau ar gyfer rheoli, adfer a chreu cloddiau priodol. TARGED/AMSERLEN: erbyn 2005	CG, Partneriaid perthnasol
Cyngor		
	Dim	
Arolygon, ymchwil a monitro		
5	Casglu gwybodaeth ar Gloddiau yng Ngwynedd drwy raglen stocrestr o ddata sydd ar gael a gwaith arolygu, a targedau safleoedd allweddol ar gyfer eu rheoli a'u hadfer. TARGED: Erbyn 2006	CG, CCGC, CEH, AACCG, YG, CBNGC, CFGA CYMRU, PCB
Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd		
6	Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd nodweddion terfyn fel cloddiau fel nodwedd dirweddol, dulliau traddodiadol o'u hadeiladu a'u cynnal, a sut y gall rheolaeth amhriodol fel torri gwrychoedd rhwng mis Mawrth-Awst gael effaith niwedol ar adar sy'n nythu, drwy fynd i sioeau a digwyddiadau amaethyddol lleol, creu cyhoeddusrwydd yn lleol, a thrwy gynhyrchu / dosbarthu defnyddiau addysgol / cynghori. TARGED/AMSERLEN: erbyn 2005	CG, CCGC, GCFBG, CBNGC, YG, CFGA . Plantlife
7	Cynhyrchu taflen ar y dulliau traddodiadol o adeiladu cloddiau TARGED/AMSERLEN: erbyn 2006	CG, AACCG, CCGC, CyT, GCFBG, UFC, UAC, YG, CBNGC, CFGA

^c Dangosir y partner arweiniol ar gyfer y cam gweithredu hwn mewn teip du amlwg, gweler adran 7.2 am eglurhad o'r byrfodau

7. PARTNERIAID A CHYFLEOEN

7.1 Prif Bartner y CGC

Cyngor Gwynedd (CG)

7.2 Partneriaid allweddol

Adran Amaeth Cynllunio a Chefn Gwlad (AACCG)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Canolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH)

Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CyT)

Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)

Grŵp Cyngori Ffermio a Bywyd Gwyllt (GCFBG)

Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr Cymru (UCF)

Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG)

Cymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru (CBNGC)

Cymdeithas Frenhnoel er Gwarchod Adar Cymru (CFGA)

Coleg Prifysgol Bangor (CPB)

Plantlife

7.3 Cyfleon

Ffermwyr, Perchenogion Tir, Undebau Amaeth

8. DIOLCHIADAU

Prif awdur: Tom Jones (Cymdeithas Edward Llwyd)
Darluniau Ilinell: English Nature

Cyd-awdures: Nerys Davies (CG)

9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, AAS: Ardal Amgylcheddol Sensitif, CGC: Cynllun Gweithredu Cynefin, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaeth, CBGN: Cyd Bwyllgor Gwarchod Natur, CGBL: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

¹ UK Biodiversity Group Classification- Jackson, D.L. 2000. Guidance on the interpretation of the Biodiversity Broad Habitat Classification (terrestrial and freshwater types): definitions and the relationship with other habitat classifications. JNCC Report No.307.